

**Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol
WFG TA 42
Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
Ymateb gan Mari Evans**

Annwyl Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd,

Rwyf yn cefnogi'r ymgyrch i gael Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cryf.

Hoffwn weld y Bil yn cael ei gryfhau drwy:

- Ychwanegu targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Gosod dyletswydd gref ar gyrff cyhoeddus i anelu at gyflawni datblygiad cynaliadwy ym mhopeth maen nhw'n ei wneud
- Ychwanegu diffiniad clir o'r hyn a olygir gan ddatblygiad cynaliadwy
- Ystyried yn iawn yr effaith y mae Cymru yn ei chael ar bobl a'r amgylchedd dramor
- Cynyddu pwerau'r Comisiynydd a gwneud y rôl yn atebol i Aelodau'r Cynulliad yn hytrach na Gweinidogion Cymru

Mae'n bwysig cael manylion y Bil yn gywir NAWR er mwyn ei weithredu heb unrhyw amwysder ac mor gyflym â phosibl.

Gofynnaf i chi ystyried fy marn wrth i chi graffu ar y ddeddfwriaeth yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Mari Evans